Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR)
Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer
Gorsaf Bŵer Wylfa

Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Hydref – 31 Rhagfyr 2016

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn rhan o ymrwymiad yr ONR i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoleiddiol yn ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosberthir adroddiadau yn chwarterol i aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Safle'r Wylfa a hefyd maent ar gael ar wefan yr ONR (http://www.onr.org.uk/llc/).

Fel arfer bydd arolygwyr safle o'r ONR yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw un sydd eisiau ymholi ynglŷn â materion a drafodir yn yr adroddiad hwn gysylltu â'r ONR.

TABL CYNNWYS

1 ARCHWILIADAU 3
2 MATERION ARFEROL 3
3 MATERION ANARFEROL 4
4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO 5
5 NEWYDDION GAN YR ONR 5
6 CYSYLLTIADAU 6

1 ARCHWILIADAU

1.1 Dyddiadau archwiliadau

Fe gyflawnodd arolygydd safle'r ONR arolygiadau ar y dyddiad canlynol yn ystod y chwarter:

5, 6 a 7 Hydref 2016

14, 15, 16, 17 a 18 Tachwedd 2016

Gwnaeth arolygwyr diogelu ymbelydredd yr ONR archwiliadau ar 1 ac 2 Tachwedd 2016.

2 MATERION ARFEROL

2.1 Archwiliadau

Cynhelir arolygiadau ar y safle fel rhan o'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- yr amodau a atodwyd gan yr ONR i'r drwydded safle niwclear a ddyfarnwyd dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i haddaswyd);
- y Ddeddf Ynni 2013
- y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HSWA74, er enghraifft y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 (IRR99) a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r archwiliad yn golygu monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle mewn perthynas â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i'r achos diogelwch ac unrhyw faterion eraill a all effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud trefniadau digonol a'u rhoi ar waith o dan yr amodau sydd wedi eu hatodi i'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae arolygiadau yn ceisio rhoi barn ar ddigonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithrediad.

Yn y cyfnod hwn, cwmpasodd arolygiadau rheolaidd safle (safle/goraf) y canlynol:

- archwiliad, cynnal a chadw, arolygu a phrofi;
- rheoli gweithrediadau yn cynnwys rheoli a goruchwylio;
- hyfforddi staff, cymwysterau a phrofiad;
- addasiadau i beiriannau, offer ac achosion diogelwch;
- digwyddiadau ar y safle;
- diogelu radiolegol;
- diogelwch diwydiannol;

Yn gyffredinol, barnodd yr ONR bod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a arolygwyd. Fodd bynnag, lle yr ystyriwyd bod gwelliannau yn angenrheidiol, gwnaeth y trwyddedai ymroddiadau boddhaol i fynd i'r afael â'r materion, a bydd yr arolygydd safle yn monitro cynnydd yn ystod ymweliadau yn y dyfodol. Lle bo angen, bydd yr ONR yn cymryd camau gorfodi rheoliadol ffurfiol i sicrhau y gweithredir mesurau adferol priodol o fewn terfynau amser sy'n rhesymol ymarferol.

<u>Archwiliadau System Ddiogelwch</u>
Mae'r ONR yn cynnwys arolygiadau o'r systemau sy'n cyfrannu at ddiogelwch adweithyddion gweithredol yn ychwanegol at archwiliadau cydymffurfio yn seiliedig ar yr amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded safle niwclear. Mae'r safle niwclear yn gofyn i'r holl safleoedd trwyddedig gael achos diogelwch parthed unrhyw weithrediadau a allai effeithio ar ddiogelwch. Ar gyfer gwagio tanwydd a datgomisiynu adweithyddion, nodwyd 15 o systemau

posibl i fod yn sail i archwilio systemau diogelwch er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r hawliadau a wneir arnynt gan yr achos diogelwch. Y bwriad yw archwilio diogelwch y systemau diogelwch perthnasol a nodir ar y safle yn systematig dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r ONR o'r farn y bydd yr ymagwedd hon yn darparu'r lefel ofynnol o sicrwydd y bodlonir gofynion yr achos diogelwch a bod y safle yn cael ei weithredu'n ddiogel.

Y chwarter hwn, y systemau diogelwch a arolygwyd oedd agweddau mecanyddol systemau codi a chario niwclear. Ar sail yr arolygiadau, pennwyd bod y systemau yn cael eu gweithredu a chynnal yn unol â gofynion yr achos diogelwch. Ble nodwyd meysydd i'w gwella, addawodd yr orsaf y byddai'n cymryd camau priodol i ddelio â'r rhain. Bydd yr ONR yn monitro cynnydd i gwblhau'r gwaith a gytunwyd.

Arolygiad Amddiffyniad Ymbelydrol
Cyflawnwyd yr ymyrraeth yn bennaf dan reoliad 8, 'Cyfyngu Amlygiad', y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999. I sicrhau cysondeb gydag arolygiadau blaenorol, cyflawnwyd yr archwiliad yn defnyddio holiadur safonol ac yna sesiwn holi ac ateb wyneb yn wyneb gyda chynrychiolwyr yn Wylfa. Yn ystod yr ymyrraeth, fe archwiliodd yr ONR y trefniadau ar gyfer rheoli amlygiad i ymbelydredd trwy dargedu nifer o feysydd yn cynnwys ardal cap pawl adweithydd 1 a 2, swyddfeydd a'r storfa gwastraff ymbelydrol.

Barnwyd fod cydymffurfiad gyda Rheoliad Ymbelydredd Ïoneiddio 19999 o safon ddigonol gyda rhai cyfleoedd ar gyfer gwelliant pellach wedi eu nodi, gan drafod hyn a chytuno arnynt gyda'r trwyddedai.

2.2 Gwaith arall

Mynychwyd cyfarfod rhwng yr ONR, Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW), Magnox Ltd a Horizon Nuclear ar 19 Rhagfyr 2016. Diben y gwaith oedd i drafod y gofynion a ragwelwyd gan Horizon Nuclear ar gyfer defnyddio nifer o ardaloedd safle trwyddedig Magnox Ltd yn ystod cyfnod adeiladu ei adweithyddion. Casglwyd mai'r mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer darparu mynediad fyddai trwy brydlesu'r ardaloedd gofynnol gan Magnox Ltd dan drwydded ei safle. Gofynnodd y rheolyddion i Horizon Nuclear weithio gyda Magnox Ltd ac i ddarparu rhaglen integredig, erbyn 31 Mawrth 2016, ar gyfer gweithredu'r cynigion uchod i gynnydd dyddiadau carreg filltir ar gyfer cyhoeddi prydlesau, unrhyw newidiadau EPR a newidiadau cynlluniau diogelwch ar gyfer y ddau safle.

3 MATERION ANARFEROL

Mae'n ofynnol i drwyddedai sefydlu trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anghyffredin. Mae arolygwyr yr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, yn cynnwys sut y gweithredwyd i gyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol.

Materion penodol i'w nodi yn ystod y cyfnod oedd:

Byrddau ffiwsys Goleuadau a Phŵer Bychan (L&SP)
Yn dilyn a mater tu allan i'r arferol yn ymwneud â ffiwsys wedi eu gosod yn anghywir mewn byrddau Ffiwsys Sbotyn coch i gefnogi systemau goleuadau a phŵer bychan (L&SP), a adroddwyd yn yr Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer Chwarter 1, fe wnaeth Magnox Ltd ymroi i gyflawni archwiliad cynhwysfawr o'r holl fyrddau ffiwsys L&SP gan fwriadu cwblhau erbyn 31 Hydref 2016.

Ar 27 Hydref 2016 rhoddodd Magnox Ltd wybod i'r ONR ei fod yn hwyr yn cwblhau ei archwiliadau o fyrddau ffiwsys L&SP, gydag oddeutu 70% o'r byrddau ffiwsys wedi eu harchwilio. Fe hysbysodd yr ONR hefyd bod dau achos o ffiwsys wedi eu cysylltu allan gan ddarnau o wifren yn unig wedi eu canfod, wedi nodi achos tebyg yn gynharach yn ei rhaglen archwilio. Ystyriodd yr ONR bod y sefyllfa hon yn erbyn ei Fodel Rheoli Gweithredu gan ystyried cynigion Magnox Ltd i ddelio â'r rhaglen archwilio oedd yn weddill erbyn canol

Rhagfyr 2016 a chasglu bod rheswm da dros y camau rheoleiddio dan y Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989, Rheoliad 4(2), sy'n datgan:

“fel y gall fod yn angenrheidiol i atal perygl, dylid cynnal pob system er mwyn atal, cyn belled a'i bod yn rhesymol ymarferol, perygl o'r fath”.

Yn ystod yr ymgynghoriad gorfodi, fe wnaeth Magnox Ltd:

- Ddarparu sicrwydd fod gwaith cynnal a chadw i unioni parthed y byrddau ffiwsys L&SP a ffiwsys anghywir wedi ei daclo erbyn canol Tachwedd.
- Gadarnhau fod gwaith i atal hyn rhag digwydd eto yn cael ei gychwyn i sicrhau y cyflawnir archwiliadau yn ddigon cyson trwy drefniadau cynnal safle ac y disgwylir cwblhau hyn erbyn diwedd Rhagfyr 2017.
- Gytuno i ysgrifennu at yr ONR yn cadarnhau fod y rhaglen archwilio wedi ei gwblhau ac i ddarparu manylion y gwaith sy'n weddill i leihau risg y bydd yn digwydd eto.

O ystyried bod Magnox Ltd wedi delio â'r risg o niwed trwy gwblhau'r gwaith cynnal a chadw gofynnol, a'i fod nawr yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol, casglwyd y dylid cyhoeddi llythyr gorfodi yn cadarnhau disgwyliadau'r ONR ar gyfer cydymffurfiad parhaus.

Anomaledd o ran Nodi Ffin Trwydded Safle Wylfa
Yn ystod trafodaethau gyda Horizon Nuclear Power Ltd parthed trosglwyddiad posibl o barseli o dir sy'n eiddo i'r NDA i Horizon Nuclear Power Ltd, daeth yn amlwg bod yna fân anghysondeb yn Ffin Trwydded Safle Wylfa Magnox Ltd fel y mae wedi ei farcio ar ddarluniad y safle o gymharu â'r dogfennau cyfreithiol. Datgelodd ymchwiliad pellach bod y ffin corfforol yn cyd-fynd â'r ffin a gofnodwyd ar drwydded y safle. Mae Magnox wedi addasu darlun y safle ers hynny i adlewyrchu ffin y safle yn gywir.

Ffonau Safle Anweithredol
Cafwyd dau ddigwyddiad, un yn Nhachwedd ac un arall yn Rhagfyr, a achosodd i'r safle fod yn methu deialu rhifau allanol o rai lleoliad yn ystod cyfnod o ddwy awr. Cadarnhaodd Magnox y gallai'r digwyddiadau hyn fod wedi effeithio ar ei allu i ddarparu ymateb brys pe byddai digwyddiad. Fodd bynnag, mae gan y safle ddulliau amrywiol o gyfathrebu, felly mae'n annhebygol y byddai hyn yn effeithio arnynt. Deliwyd â'r gwallau uniongyrchol yn brydlon ac adfer gwasanaethau arferol o fewn cyfnod byr o amser.

4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO

Gall yr ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliadol. O dan amodau trwyddedu safleoedd niwclear, mae’r ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoliadol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod camau penodol yn cael eu cymryd; gelwir y rhain gyda'i gilydd yn ‘Offerynnau Trwydded’ (LIs), ond gallant fod ar ffurf arall. Yn ogystal, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

- Ni chyhoeddwyd unrhyw Offerynnau Trwydded na Hysbysiadau Gorfodi yn ystod y cyfnod.

5 NEWYDDION GAN YR ONR

Digwyddiadau Rhanddeiliaid Allanol

Ar 1 Tachwedd 2016, cynhaliodd yr ONR ei Gynhadledd Diwydiant yn Llundain, a ddaeth ag uwch reolwyr o ar draws y sector niwclear ynghyd. Roeddem yn falch i allu croesawu y Farwnes Neville-Rolfe DBE CMG, Gweinidog Gwladol yn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) i gynhadledd eleni i gyflwyno'r brif araith. Cyhoeddwyd rhifyn arbennig o Regulation matters yn dilyn y gynhadledd, sy'n rhoi crynodeb o'r diwrnod. Yn rhan o'n

hymroddiad i ymgysylltu'n rheolaidd gyda'n holl grwpiau rhanddeiliaid, roeddem yn falch i groesawu 17 o gynrychiolwyr o nifer o sefydliadau i'n fforwm ONR / NGO ar 30 Tachwedd yn Llundain. Roedd y digwyddiad yn gyfle i gynrychiolwyr NGO gwrdd â nifer o uwch arweinwyr yr ONR, yn cynnwys ein Prif Weithredwr a Phrif Arolygydd Niwclear, i drafod nifer o faterion blaenoriaeth.

Regulation Matters

Gellir cael cipolwg ar waith yr ONR fel rheolydd annibynnol i'r diwydiant niwclear yn Regulation Matters yr ONR. Mae'r cyhoeddiad ar-lein (http://www.onr.org.uk/regulation-matters.htm) yn adrodd ar themâu a datblygiadau allweddol ym mhob un o raglenni rheoleiddio'r ONR ac yn darparu diweddariad ynglŷn â'r newidiadau i ddod yn ONR. http://www.onr.org.uk/index.htm. I gael y newyddion a diweddariadau diweddaraf gan ONR, ewch i'r wefan a chofrestrwch ar gyfer ein e-fwletin (http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm).

6 CYSYLLTIADAU

Y Swyddfa dros Reoli Niwclear
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Glannau Mersi
L20 7HS
gwefan: www.onr.org.uk
e-bost: ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). Am ragor o wybodaeth am ONR, neu i roi adroddiad am anghysondebau neu wallau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i http://www.onr.org.uk/feedback.htm.

© *Y Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2015*
Os ydych yn dymuno ailddefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.onr.org.uk/copyright.htm am fanylion.
Cyhoeddwyd 07/16

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei gopïo neu ei argraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.